**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor**

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 26 Ebrill 2018 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | S E Crouch | J P Curtice |
| N J Davies | A M Day | C R Doyle |
| M Durke | V M Evans | C R Evans |
| W Evans | E W Fitzgerald | S J Gallagher |
| L S Gibbard | F M Gordon | K M Griffiths |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | B Hopkins | D H Hopkins |
| O G James | Y V Jardine | M H Jones |
| P K Jones | S M Jones | L R Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M A Langstone | M B Lewis | R D Lewis |
| W G Lewis | A S Lewis | C E Lloyd |
| P Lloyd | I E Mann | P M Matthews |
| P N May | H M Morris | D Phillips |
| C L Philpott | S Pritchard | A Pugh |
| J A Raynor | C Richards | K M Roberts |
| B J Rowlands | M Sherwood | P B Smith |
| R V Smith | A H Stevens | R C Stewart |
| D G Sullivan | M Sykes | G J Tanner |
| L G Thomas | W G Thomas | M Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | G D Walker | L V Walton |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, R Francis-Davies, P R Hood-Williams a/ac L James

---

## 182. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y diddordebau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o ddiddordebau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog ddiddordeb i'w ddatgan yn unig. Nid oedd angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw gysylltiad ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y diddordebau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd M C Child ddiddordeb personol yng nghofnod 190, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Adolygiad Ffiniau Lleol."

**183. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y cyngor a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2018.

**184. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y Cyngor.

**185. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**1) Cydymdeimladau**

**a) Elsie May Thomas, Mam y Cynghorydd Mark Thomas**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Elsie May Thomas, mam y Cynghorydd Mark Thomas. Roedd Elsie yn 94 oed.

**b) Doreen Thomas, Gwraig Henadur Anrhydeddus Charles Thomas**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Cyn-Faeres Abertawe, Doreen Thomas, gwraig yr Henadur Anrhydeddus, y Cyn-Gynghorydd a'r Cyn-Faer Charles Thomas (St Thomas).

Sefwch fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**2) Y Cynghorydd Sybil E Crouch**

Croesawodd yr Aelod Llywyddol y Cynghorydd S E Couch yn ôl ar ôl ei salwch.

**3) Traeth Aur, Gemau Gymanwlad Awstralia 2018**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol y Traeth Aur, Awstralia am gynnal Gemau Gymanwlad 2018 llwyddiannus. Gwobrwywyd ymdrechion Traeth Aur Tîm Cymru ar gyfer ei Gemau Gymanwlad mwyaf llwyddiannus trwy wneud cyfanswm y medalau'n gyfwerth â chyfanswm y medalau a gafwyd yn Glasgow yn 2014. Gorffennodd Tîm Cymru'r gemau yn y seithfed safle gyda 36 o fedalau (10 Aur, 12 Arian ac 14 Efydd).

**4) Cyngor Seremonïol - 18 Mai 2018**

Atgoffodd yr Aelod Llywyddol y Cynghorwyr fod gwahoddiadau i Gyfarfod Seremonïol y Cyngor ar gyfer Urddo'r Arglwydd Faer wedi cael eu hanfon. Trefnir Cyfarfod Seremonïol y Cyngor ar gyfer 14.00 ddydd Gwener 18 Mai 2018. Bydd angen rhoi ateb i'r Swyddog Dinesig (Jo-anne Jones) cyn 4 Mai 2018.

**5) Gwobrau MJ 2018**

Un o brif gynlluniau anrhydeddu llywodraeth leol y DU yw Gwobrau MJ. Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol yr awdurdod am gael ei gydnabod dair gwaith yng Ngwobrau MJ 2018.

Y Tîm Rheoli Gwastraff oedd y gorau yn y categori Tîm Gwasanaethau Gorau'r Cyngor. Bydd yn darganfod a yw wedi ennill y brif wobr ar 27 Mehefin 2018.

Canmolwyd y Prosiect Gweithio Ystwyth yn y categori Arloesedd mewn Rheoli Tlodi ac Asedau.

Canmolwyd Cynllun Peilot Passivhaus Ffordd Colliers yn y categori Menter Tai Cymdeithasol Gorau.

**6) Huw Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd - Antur Beicio Caderman yn Nwyrain Ewrop**

Dymunodd yr Aelod Llywyddol y gorau ar ran y cyngor i Huw Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, ar ei Antur Beicio yn Nwyrain Ewrop sydd ar ddod. Bydd Huw a 10 o bobl eraill yn hedfan i Krakow, Gwlad Pwyl, ar 20 Mai 2018 ac yn beicio oddi yno a thrwy Wcráin, Belarus gan orffen y daith yn Vilnius, Lithwania. Byddant yn beicio ychydig llai na 700 o filltiroedd dros 6 diwrnod (mwy os ydynt yn mynd ar goll). Ni fydd unrhyw gefnogaeth ganddynt a bydd angen iddynt gario'u holl gyfarpar am hyd y daith.

Diben y daith yw codi arian ar gyfer Bloodwise, Elusen Cancr Gwaed y DU. Gallwch gyfrannu'n uniongyrchol i Huw neu drwy dudalen Just Giving Caderman.

https://www.justgiving.com/fundraising/caderman2018

**7) Diwygiadau / Cywiriad i Wŷs y Cyngor**

a) Eitem 14 "Cwestiynau'r Cyngor" - Cwestiwn 9.

Nododd yr Aelod Llywyddol y cylchredwyd gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag Eitem 14 "Cwestiynau'r Cynghorwyr" - Cwestiwn 9. Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael ar adeg argraffu Gwŷs y Cyngor.

## 186. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**1) Bargen Ddinesig Rhanbarth Bae Abertawe - Y Diweddaraf**

Nododd Arweinydd y Cyngor fod Bargen Ddinesig Rhanbarth Bae Abertawe wedi bod yn llwyddiannus o ran trafod i gadw 50% o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol (TAC) mewn perthynas â phrosiectau penodol.

Nododd fod y gyfarwyddiaeth gyfalafu hefyd wedi'i diogelu, gan ganiatáu symud peth arian i'r gyllideb refeniw.

Gorffennodd drwy gyhoeddi fod Ed Tomp wedi'i benodi'n Gadeirydd y Bwrdd Strategol.

## 187. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd cwestiwn gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â Chofnod 191, "Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe – Gweithio gyda’n Gilydd ar gyfer Dyfodol Gwell".

Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol.  Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

## 188. Cyflwyniad Cyhoeddus

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

## 189. Côd Ymarfer - Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyfleoedd Masnachol ac Arloesedd ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gofrestru ar gyfer Côd Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

**Penderfynwyd:**

1) Y byddai'r awdurdod yn cofrestru ar gyfer Côd Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi;

2) Nodi'r cynllun gweithredu a'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Lleoedd i'w weithredu.

**190. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Adolygu Ffiniau Lleol.**

Rhoddodd Theo Joloza, Steve Halsall, Matt Redmond a Dan Mosely o Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, gyflwyniad ar yr Adolygiad Ffiniau Lleol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe. Gwnaethant amlinellu'r broses adolygu mewn perthynas â Dinas a Sir Abertawe.

Dywedon nhw y byddai'r comisiwn yn croesawu unrhyw sylwadau gan yr awdurdod. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 4 Mai 2017 ac yn cau ar 26 Gorffennaf 2017.

Dilynwyd y cyflwyniad gan sesiwn holi ac ateb.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cofnodi'r cyflwyniad.

**191. Gynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol gwell.**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a oedd yn cynnwys Amcanion Lles Lleol a'r camau y bydd y bartneriaeth yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, fel a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac arweiniad statudol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.

**192. Aelodaeth Pwyllgorau.**

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu.

Dywedodd nad oedd Arweinydd y Cyngor wedi gwneud unrhyw newidiadau i aelodaeth cyrff allanol yr awdurdod.

**Penderfynwyd:**

**1)** Diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**i) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Economi ac Isadeiledd**
Tynnu enw'r Cynghorydd L S Gibbard.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd P B Smith.

**ii) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Lleihau Tlodi**
Tynnu enw'r Cynghorydd P K Jones.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd G J Tanner.

**193. Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol**

Cyflwynodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

**194. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar gyfer y cwestiynau atodol.

**2) 'Cwestiynau Rhan B nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer'**

Cyflwynwyd pedwar (4) cwestiwn Rhan B nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer.

**195. Rhybydd o Gynnig - Cynghorwyr M C Child, R Francis-Davies, W Evans, C A Holley, D H Hopkins, P K Jones, A S Lewis, C E Lloyd,J A Raynor, M Sherwood, R C Stewart & M Thomas**

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P K Jones a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Mae'r cyngor hwn yn credu y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd, heb gael trefniadau rhesymol ar waith, yn achosi difrod tymor hir difrifol i bobl Abertawe, Cymru a'r DU.*

*Rydym yn nodi bod adroddiadau effaith diweddar y Llywodraeth, sy'n cadarnhau y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn amharu ar dwf a ffyniant, ac yn lleihau'r Cynnyrch Domestig Gros rhwng 1.5% a 9.5%. Bydd yr effeithiau negyddol hyn yn amharu ar swyddi, incwm, pensiynau a chyfleoedd pobl. Yn ogystal, bydd gadael yr UE yn peryglu llawer o fesurau diogelu amgylcheddol, sy'n gofyn am gydweithrediad rhyngwladol er mwyn bod yn effeithiol.*

*Wrth gwrs, bydd lefel yr effaith gyffredinol yn dibynnu ar y trefniadau a roddir ar waith ar gyfer ein perthynas â'r UE yn y dyfodol. Fodd bynnag, ym mhob sefyllfa mae'n glir y bydd y DU, Cymru ac Abertawe'n dlotach y tu allan i'r UE.*

*Mae'r cyngor hwn, felly, yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y penderfyniad pwysicaf y mae'r wlad hon wedi'i wynebu ers cenedlaethau'n destun pleidlais ystyrlon.*

*Dylai'r bleidlais hon fod ar ffurf pleidlais rydd yn y Senedd ar y cytundeb wedi Brexit sydd wedi'i gyd-drafod.*

*Rydym yn galw ar yr Arweinydd i ysgrifennu, ar ran y cyngor, i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyfleu ein barn am y mater hwn."*

**Penderfynwyd:**

Cymeradwyo'r Rhybudd o Gynnig.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.55 pm

**Cadeirydd**